



Y Tu Hwnt i Argyfwng: Troi'r llanw ar gyfer Gofal Cancer yng Nghymru

Etholiadau'r Senedd 2026

**CYMORTH CANCER
MACMILLAN**

Cyflwyniad

Mae gofal canser yng Nghymru mewn argyfwng. Mae gormod o bobl yn aros yn rhy hir am ddiagnosis a thriniaeth tra'n cael traferth cael y gefnogaeth maen nhw ei hangen, ar yr adeg maen nhw ei hangen a lle maen nhw ei hangen. Mae'r system yn cael ei gwrthio, mae'r pwysau'n tyfu, ac i bobl sy'n byw gyda chanser, mae oedi ac anghyfartaledd yn arwain at ganlyniadau parhaol. Mae oedi yn costio bywydau.

Mae pobl Cymru yn haeddu gwell.

Ym Macmillan, rydym ni'n credu bod yn rhaid i hyn fod yn drobwynt. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru weithredu i gyflawni newidiadau systemig sy'n mynd i'r afael ag amrywiadau direswm mewn triniaeth a gofal, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau dwfn, a rhoi lleisiau i gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu fel y dylent wrth wraidd gofal canser.

Mae Macmillan yn barod i fod yn bartner wrth droi'r llanw. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'r llywodraeth, GIG Cymru, gweithwyr proffesiynol, partneriaid yn y sector ac yn bwysicaf oll, pobl sy'n cael eu heffeithio gan ganser yng Nghymru — lle bynnag maen nhw'n byw, beth bynnag mae'n ei gymryd ac o ba gymuned bynnag maen nhw — er mwyn gwneud iddo ddigwydd.

Wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â phobl sydd â phrofiad byw o ganser yng Nghymru a gweithwyr proffesiynol Macmillan, mae ein maniffesto yn nodi pedair blaenoriaeth frys ar gyfer adeiladu dyfodol tecach a chynaliadwy ar gyfer gofal canser yng Nghymru:

1. Strategaeth ganser deng mlynedd sy'n darparu cyfeiriad tymor hir, buddsoddiad a safonau cenedlaethol ac sy'n sbarduno gofal cyson, cynhwysol, o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ledled Cymru — gan ddod â chylch o atgyweiriadau tymor byr i ben.
2. Gweithlu canser â chefnogaeth dda, gyda mynediad gwell, cyfartal i hyfforddiant, cymorth a dilyniant gyrfa, lle bynnag yng Nghymru mae staff wedi'u lleoli.
3. Chwyldro mewn data canser a seilwaith digidol, i gynllunio'n ddoethach, cyflwyno'n gyflymach a grymuso pobl sy'n byw gyda chanser a gweithwyr proffesiynol, gan ddefnyddio data i gefnogi gwneud penderfyniadau, grymuso cleifion a diogelu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
4. System ganser gyfannol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda mynediad at gymorth pryd, ble a sut mae pobl ei angen — gan gydnabod bod cefnogi pobl sy'n byw gyda chanser a thu hwnt yr un mor bwysig â'i drin.

Ystadegau hanfodol:

- Rydym ni'n amcangyfrif y bydd tua 190,000 o bobl sy'n byw yng Nghymru yn 2025 wedi cael diagnosis canser ar ryw adeg yn eu bywydau.¹
- Nid yw'r targed amseroedd aros canser yng Nghymru y dylai 75% o bobl ddechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod yn dilyn amheuaeth gyntaf erioed wedi cael ei fodloni. Yn 2024 y ffigur cyfartalog oedd 56%.²
- Mae cyfraddau marwolaethau canser yng Nghymru 52% yn uwch yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru na'r rhai lleiaf difreintiedig.³
- Mae gan 70% o bobl â chanser o leiaf un cyflwr hirdymor arall.⁴
- Oherwydd loteri cod post mewn gwasanaethau canser mae 44% o bobl â chanser yng Nghymru wedi cael eu heffeithio gan amrywiad lleol mewn triniaeth a gofal — cyfanswm o tua 84,000 o bobl â chanser.⁵

1 Cymorth Canser Macmillan: [Cyffredinolrwydd canser](#).

2 [Data Llwybrau Canser a Amheuir gan StatsCymru](#).

3 Iechyd Cyhoeddus Cymru. [Marwolaethau canser yng Nghymru](#).

4 Cymorth Canser Macmillan. [Canser a chyflyrau hirdymor eraill](#).

5 Arolwg Cymorth Canser Macmillan/YouGov o 2,002 o oedolion yn y DU sydd wedi cael diagnosis canser.



Blaenoriaeth Un:
Strategaeth Ganser Genedlaethol
Deng Mlynedd i Gymru

Blaenoriaeth Dau:
Gweithlu cancer â
chefnogaeth dda

Blaenoriaeth Pedwar:
System ganser gyfannol sy'n
canolbwyntio ar yr unigolyn.

Blaenoriaeth Tri:
Chwyldro mewn data
cancer a seilwaith digidol,
i gynllunio'n ddoethach,
cyflwyno'n gyflymach,
a grymuso.

Blaenoriaeth Un: Strategaeth Ganser Genedlaethol Deng Mlynedd i Gymru

Rydym ni'n galw am Strategaeth Ganser Genedlaethol deng mlynedd newydd sydd:

- Yn cynnwys digon o adnoddau, yn fanwl ac sydd ar gyfer yr hirdymor, gan roi terfyn ar gylch o gyllid a datrys problemau tymor byr.
- Yn galluogi cydweithio ar draws yr holl bartneriaid i sicrhau bod pobl yn cael gofal a chefnogaeth cofleidol ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn.
- Yn cael ei gynllunio gyda chleifion, gweithwyr proffesiynol, a phob cymuned, heb ei orfodi arnynt.
- Yn seiliedig ar gynllun cyflawni treigl gyda gwerthuso rheolaidd, gan ddysgu o arferion gorau yng Nghymru, ledled y DU a thu hwnt.
- Yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag amrywiadau direswm mewn triniaeth a gofal cancer, sy'n cael eu sbarduno gan faterion systemig sy'n gysylltiedig â daearyddiaeth, oedran, adegau o angen a mathau o ganser.
- Yn cael ei arwain gan Weinidog Cancer newydd, ac yn atebol iddo.
- Yn cyflawni'r ymrwymiad i sicrhau bod GIG Cymru yn wrth-hiliol.
- Yn sbarduno gwelliant mewn amseroedd aros cancer i gyrraedd y targed o 75%.

Yn ein sgysiau a'n grwpiau ffocws, roedd pobl oedd wedi'u heffeithio gan ganser a gweithwyr proffesiynol Macmillan yn glir: Mae Cymru angen strategaeth ganser genedlaethol hirdymor achynaliadwy.

Roedd y Cynllun Gwella Cancer presennol yn fesur tymor byr angenrheidiol, ond nid yw'n ddigon. Mae pobl sy'n byw gyda chanser yn wynebu aros hir am ddiagnosis a thriniaeth, yn profi anghydraddoldebau enfawr o ran mynediad at ofal, a chymorth sy'n aml yn amrywio yn dibynnu ar bwy ydyn nhw a ble maen nhw'n byw.

Os yw Cymru'n parhau i fod yr unig genedl yn y DU heb strategaeth ganser hirdymor, mae perygl iddi syrthio ymhellach ar ei hôl hi.

Rhaid i'r strategaeth newydd fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau parhaus a'r amrywiadau direswm mewn canlyniadau cancer sy'n bodoli ledled Cymru — sy'n cael eu sbarduno gan amddifadedd economaidd, daearyddiaeth, ethnigrwydd a ffactorau eraill. Rhaid iddo hwyluso darparu gofal pryd a lle mae pobl ei angen, gan sicrhau bod pob person â chanser yn cael mynediad amserol at y gefnogaeth gywir, gan y gweithwyr proffesiynol cywir, ac ar bob cam — o ddiagnosis drwy driniaeth i ôl-ofal — ni waeth eu galluedd, eu hiaith, eu hoedran neu gefndir eu hunain.

Dylai'r strategaeth gael ei harwain trwy sefydlu Gweinidog Cancer newydd, i ysgogi atebolrwydd ac arweinyddiaeth y system gyfan, gan gynnwys mwy o gydweithio rhanbarthol.

Rhaid cyd-gynhyrchu'r strategaeth gyda'r bobl sy'n adnabod cancer orau: cleifion, gweithwyr proffesiynol, arweinwyr sector a chymunedau. Mae Macmillan eisiau gweithio gyda Llywodraeth nesaf Cymru i ddod â phawb sydd â rhan i'w chwarae wrth arloesi a thrawsnewid ein system gofal cancer ynghyd. Rhaid iddo ddarparu'r sylfeini ar gyfer gofal cancer cynaliadwy, o'r radd flaenaf yng Nghymru. Mae angen i Gymru arwain — nid oedi — ym maes gofal cancer.

Dim ond oherwydd fyd mod wedi mynnu a rhoi pwysau ar fy meddyg teulu yn ystod yr apwyntiad hwnnw y cefais fy nghyfeirio. Fe wnaeth yr atgyfeiriad hwnnw achub fy mywyd.

Stori Neil



Yn 51 mlwydd oed, newidiodd bywyd Neil ar ôl i brawf gwaed yn y gweithle gyda Heddlu Gogledd Cymru ddatgelu lefelau uchel o PSA. Oherwydd ei oedran, y ffaith nad oedd wedi cael ei ddarparu gan y GIG, ac nad oedd ganddo unrhyw symptomau, fe wnaeth ei feddyg ei ddiystyru i ddechrau. "Dim ond oherwydd fyd mod wedi mynnu a rhoi pwysau ar fy meddyg teulu yn ystod yr apwyntiad hwnnw y cefais fy nghyfeirio. Fe wnaeth yr atgyfeiriad hwnnw achub fy mywyd."

Wedi cael diagnosis o ganser y prostad, cafodd Neil Brostatectomi Radical yn Ysbyty Glan Clwyd, ond nawr mae'n rhaid i ddynion deithio i Loegr i gael llawdriniaeth oherwydd nad oes gan ei fwrdd iechyd lleol yr offer robotig angenrheidiol. "Pe bai dynion yn cael diagnosis mewn ardaloedd eraill o dan Fwrdd Iechyd Cymru, ni fyddai angen iddynt deithio i Lundain." Y tu hwnt i ymarferion sylfaenol, nid oedd llawer o opsiynau ar gyfer adsefydlu, cymorth emosiynol neu gymorth gan gymheiriaid, gan ysgogi Neil i greu a chadeirio tri Grŵp Cymorth Canser y Prostad Gogledd Cymru ar draws ei ranbarth ac ymgyrchoedd ar gyfer profi PSA yn gynharach a mynediad mwy teg i ofal a thriniaeth.

"Ni ddylai fod o bwys ble yng Nghymru rydych chi'n byw, dylech gael mynediad at yr opsiynau triniaeth gorau sydd ar gael ac at y gefnogaeth gywir – emosiynol a chorfforol." Mae stori Neil yn cefnogi'r angen am strategaeth ganser genedlaethol 10 mlynedd i Gymru i sicrhau cysondeb, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amrywiad di-reswm - ac mae Macmillan wedi ymrwymo i wneud beth bynnag sydd ei angen i wneud iddo ddigwydd.

Blaenoriaeth Dau: Gweithlu cancer â chefnogaeth dda

Rydym ni'n galw am:

- Strategaeth gweithlu cancer a gyflwynir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru.
- Llwybrau dilyniant gyrfa clir ar gyfer gweithwyr proffesiynol cancer ac amser datblygu proffesiynol penodol.
- Casglu a chyhoeddi data manwl yn rheolaidd am y gweithlu cancer er mwyn galluogi monitro a chynllunio'r gweithlu parhaus.
- Gweithredu i greu gweithlu sy'n gydradd ac yn ymatebol yn ddiwylliannol.

Mae angen gweithlu â chefnogaeth dda ar wasanaeth cancer o'r radd flaenaf. Mae gweithwyr proffesiynol ymroddedig o ran cancer a gofal iechyd ledled Cymru yn mynd y tu hwnt i ateb yr heriau o ddarparu gofal cymhleth a thosturiol mewn amgylchiadau heriol. Ond maen nhw'n gweithio mewn system ganser nad yw'n eu cefnogi'n ddigonol.

Er mwyn darparu gweithlu cancer yng Nghymru sy'n bodloni gofynion yn y dyfodol rydym ni angen strategaeth uchelgeisiol, wedi'i chefnogi gan gyllid, sy'n cynnwys y gweithlu cyfan — o nyrsys arbenigol i ddeietegwyr, gweithwyr cymorth i ffisiotherapyddion, seicolegwyr i feddygon teulu.

Mae mynediad at gyfleoedd datblygu proffesiynol yn cefnogi recriwtio, cadw a gyda thriniaethau a thechnoleg cancer sy'n esblygu'n gyflym, mae'n sicrhau y gall gweithwyr proffesiynol ddiwallu anghenion cynyddol gymhleth pobl sy'n byw gyda chanser. Rhaid i ni weld llwybrau gyrfa clir yn cael eu datblygu ar gyfer gweithwyr proffesiynol cancer, gydag amser a chyllid penodol i gefnogi eu datblygiad. Rhaid i fynediad at hyfforddiant hefyd fod yn gydradd ac ar gael ledled Cymru, lle mae gweithwyr proffesiynol ei angen.

Rhan hanfodol o gryfhau'r gweithlu cancer yw deall pwys ydyn nhw. Heb ddealltwriaeth fanwl o nifer y gweithwyr proffesiynol yn y gweithlu cancer, mae'n amhosibl datblygu modelu cywir ar gyfer anghenion yn y dyfodol. Mae angen i ni hefyd weld data manwl am y gweithlu yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi yn rheolaidd er mwyn galluogi monitro a chynllunio'r gweithlu yn barhaus.

Gyda chymhlethdod gofal cynyddol a'r nifer gynyddol o bobl sy'n cael diagnosis, mae angen i'r gweithlu cancer fod yn ymatebol yn ddiwylliannol a gweithredu'n wahanol. Mae hyn yn cynnwys nodi a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol i wireddu potensial technoleg newydd a darparu gofal gwirioneddol bersonol a chyfartal ar draws lleoliadau ysbytai a chymunedol. Mae'n cynnwys arbenigwyr cancer ac arbenigwyr nad ydynt yn arbenigwyr cancer sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi pobl â chanser a chyflyrau hirdymor eraill.

“Mae gofal canser yn ymwneud â mwy na thriniaeth. Mae'n ymwneud â'r daith ddiagnosis gyfan, a'r gefnogaeth sy'n ei amgylchynu”

Stori Rachel



Yn 33 mlwydd oed yn unig, yn ffit ac yn ymarfer ar gyfer marathon, cafodd poenau stumog a blinder Rachel eu diystyru dro ar ôl tro fel sgîl-ffeithiau meddyginiaeth ac IBS – tybiwyd ei bod yn rhy ifanc i fod yn glaf canser. Dim ond ar ôl i'w dermatolegydd ymyrryd y cafodd ddiagnosis o ganser y coluddyn. Er i'w thriniaeth symud yn gyflym, roedd y gefnogaeth emosiynol a chyfannol yr oedd ei hangen arni ar goll.

“Ar y ward doedd 'na neb i droi ato... dylai rhywun fod yno pan fyddwch chi'n mynd trwy lawdriniaeth sy'n newid bywyd.” Heb unrhyw arweiniad na chyfeirio at ddeietegwyr, ffisiotherapyddion na rhaglenni adsefydlu addas, trodd Rachel at sefydliadau gan gynnwys Macmillan am gymorth. Saith mlynedd yn ddiweddarach mae hi'n dal i fyw gyda blinder, colli cyhyrau, anffrwythlondeb ac anghenion emosiynol a dim ond yn ddiweddar mae wedi dechrau derbyn cymorth seicolegol gan y GIG.

Mae stori Rachel yn dangos pam mae angen gweithlu canser â chefnogaeth dda ar Gymru: “Mae gofal canser yn ymwneud â mwy na thriniaeth. Mae'n ymwneud â'r daith ddiagnosis gyfan, a'r gefnogaeth sy'n ei amgylchynu, mae'n ymwneud â'r bobl/clinigwyr cywir yn bod yno lle bynnag a phryd bynnag rydych chi eu hangen nhw.” Mae'r etholiad hwn yn y Senedd yn gyfle i wneud i hynny ddigwydd, ac mae Macmillan wedi ymrwymo i wneud beth bynnag sydd ei angen i sicrhau fod hyn yn digwydd.

† Blaenoriaeth Tri: Chwyldro mewn data cancer a seilwaith digidol, i gynllunio'n ddoethach, cyflwyno'n gyflymach, a grymuso.

Rydym ni'n galw am:

- System ddigidol integredig yn genedlaethol i gysylltu gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol.
- Protocolau codio cancer safonol a chasglu data ar draws pob bwrdd.
- Offer ar gyfer cleifion i roi mynediad i bobl i'w cofnodion eu hunain a grymuso penderfyniadau gwybodus.
- Casglu a chyhoeddi profiad a chanlyniadau cleifion cancer yn rheolaidd i hwyluso dysgu, nodi bylchau a dal systemau yn atebol.
- Data mewn perthynas ag anghydraddoldebau mewn iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd i'w gasglu, ei rannu a'i ddefnyddio'n dryloyw fel mater o drefn.

Ar hyn o bryd, mae data a systemau digidol darniog a hen ffasiwn Cymru yn gadael pobl â chanser i lawr. Yn aml nid yw ein systemau yn siarad â'i gilydd — hyd yn oed o fewn yr un bwrdd iechyd. Mae hyn yn peryglu parhad gofal ac yn creu risgiau gwirioneddol i gleifion: penderfyniadau'n cael eu gwneud heb wybodaeth lawn, profion yn cael eu gwneud dro ar ôl tro neu apwyntiadau'n cael eu colli, a straen diangen.

Mae Macmillan yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i chwyldroi data cancer a seilwaith digidol gyda buddsoddiad ac arweinyddiaeth hirdymor — gan greu system sy'n gweithio i bobl sy'n byw gyda chanser a gweithwyr proffesiynol ac yn eu grymuso.

Rydym ni angen seilwaith TG integredig yn genedlaethol sy'n cysylltu gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol — gan gynnwys modelau gofal iechyd cymdogaeth newydd — er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael, pryd bynnag y bydd ei hangen. Rydym ni hefyd angen codio cancer cyson, safonol a chasglu data, sy'n cael ei rannu'n ddigidol ar draws pob bwrdd iechyd, er mwyn sbarduno gofal gwell, lleihau amrywiadau a galluogi dadansoddiad amser real o ganlyniadau, profiadau ac anghenion.

Rydym ni'n credu y dylai pobl sy'n byw gyda chanser yng Nghymru gael mynediad at eu data eu hunain, gydag offer digidol hawdd eu defnyddio sy'n eu rhoi mewn rheolaeth o'u gofal ac yn cefnogi penderfyniadau ar y cyd. Mae technoleg o'r fath eisoes yn bodoli — mae'n bryd ei gyflwyno ledled Cymru.

Rydym ni'n credu bod casglu a chyhoeddi profiadau a chanlyniadau cleifion cancer yn rheolaidd yn hanfodol i olrhain cynnydd, hwyluso dysgu, nodi arferion gorau, tynnu sylw at anghydraddoldebau a chadw gwasanaethau a byrddau iechyd i gyfrif. Cynhaliwyd yr arolwg cenedlaethol diwethaf o brofiad cleifion cancer gan Macmillan gyda GIG Cymru yn 2021/22. Mae hynny'n rhy hir i aros i glywed gan y bobl sydd bwysicaf.

“Rhowch yr offer i ddynion yn gynnar – gallai drawsnewid adferiad.”

Stori David



Roedd David yn rheoli clwb bingo yn 2008 pan ddatgelodd prawf PSA ganser y prostad ymosodol. Dilynodd llawdriniaeth, radiotherapi a blynyddoedd o therapi hormonau, ochr yn ochr â sgîl-ffeithiau poenus gan gynnwys mastectomi dwbl ac anymataliaeth hirdymor. Daeth cefnogaeth gan y nyrs anymataliaeth a Grŵp Cefnogi Canser y Prostad Gogledd Cymru yn hollbwysig.

Fel ysgrifennydd y grŵp, mae David wedi cefnogi cannoedd o ddynion ac wedi helpu i lansio digwyddiadau profi PSA. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd ymyriadau cynnar. "Rhowch yr offer i ddynion yn gynnar – gallai drawsnewid adferiad." Mae tystiolaeth yn dangos bod mynediad amserol i gymorth llawr y pelfis yn gwella parhad ac ansawdd bywyd, ac eto mae gwasanaethau yng Nghymru yn anghyson. Ychwanega, "Pe bai fy PSA wedi cael ei olrhain yn iawn, gallai'r driniaeth fod wedi ailgychwyn yn gynt ac efallai atal y tiwmorau rhag lledaenu."

Mae stori David yn tynnu sylw at pam mae angen chwyldro ar frys ar Gymru mewn data canser a seilwaith digidol – er mwyn cynllunio'n ddoethach, cyflenwi'n gyflymach a grymuso pawb sy'n byw gyda chanser.

Blaenoriaeth Pedwar: **System ganser gyfannol** **sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.**

Mae cymorth cancer yn mynd y tu hwnt i driniaeth glinigol.
Rydym ni'n galw am:

- Fynediad at gyn-adsefydlu, adsefydlu, a chefnogaeth seicolegol i bawb sydd wedi cael diagnosis o ganser yng Nghymru.
- Mwy o fynediad at wasanaethau cymunedol, gan ddarparu cymorth cancer ble a sut mae pobl ei angen (gan gynnwys ar wardiau clinigol).
- Mynediad cyson at Asesiadau Anghenion Cyfannol ledled Cymru.
- Buddsoddiad wedi'i dargedu mewn cymunedau heb eu gwasanaethu.

Gall cancer amharu ar fywyd cyfan rhywun, gan olygu problemau ymarferol, corfforol, emosiynol ac ariannol a all bara'n hir ar ôl i'r driniaeth ddod i ben. I'r gwrthwyneb, dangoswyd bod gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n darparu ar gyfer diwallu anghenion meddygol, seicolegol, emosiynol ac ymarferol person ar draws lleoliadau triniaeth a gofal, yn gwella canlyniadau.

Mae mynediad at wasanaethau hanfodol fel cyn-adsefydlu, adsefydlu a chymorth seicolegol yn amrywio'n fawr ledled Cymru, ac ar y gwaethaf nid ydynt ar gael. Bydd mynd i'r afael â'r amrywiad hwn yn ymgorffori dull ataliol ac adsefydlu sy'n blaenoriaethu ymyrraeth gynnar, adsefydlu a chymorth lle a phryd mae pobl ei angen.

Mae darparu gwasanaethau cancer mwy cyfannol a chydlynol yn y gymuned yn tynnu pwysau oddi ar ysbytai, yn aml yn fwy hygyrch i bobl a gall leihau anghydraddoldebau iechyd. Rydym ni angen dull hirdymor gyda buddsoddiad pwrpasol i gefnogi'r newid hwn.

Gellir darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy Asesiadau Anghenion Holistig (HNA), sy'n arwain at Gynlluniau Gofal a Chymorth Personol (PCSPs), er mwyn sicrhau y gall pob person â chanser gael cymorth i lywio'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae'n hanfodol bod ein systemau yn olrhain cynnydd, drwy gasglu data ar HNA, ac yn defnyddio PCSPs i hwyluso sgysiau o safon ym mhob lleoliad perthnasol, gan gynnwys mewn meddygaeth frys. Dylai pawb sydd wedi cael diagnosis o ganser yng Nghymru gael mynediad at ofal personol a'r cyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon, ond rydym ni'n gwybod nad yw hyn yn digwydd i ormod o bobl.

Rhaid i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gael ei ategu gan weithlu helaeth sy'n fedrus o ran darparu gofal cynhwysol, rhoi'r amser a'r lle i sicrhau bod sgysiau amdano yn digwydd, a'i gefnogi gan ddata cadarn i fesur cynnydd a llywio dyluniad gwasanaeth. Rydym ni angen gwasanaethau cancer sydd wedi'u cynllunio ar y cyd â chymunedau a phobl sydd â phrofiad byw, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu a'r rhai sydd ar yr ymylon, er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y rhai sydd angen y gefnogaeth fwyaf.



Roedd jyglo bod yn rhiant ac yn weithiwr proffesiynol cancer yn llethol. Yr oedd yn rhaid i mi roi'r gorau i waith i fod yno



Stori Daisy a Catrin



Dim ond 17 mlwydd oed oedd Daisy o Ynys Môn pan ofynnodd, "Oes gen i ganser, Mam?" —cwestiwn a wnaeth chwalu ei mam Catrin, gweithiwr proffesiynol cancer ei hun. Wedi cael diagnosis o lymffoma Hodgkin, roedd Daisy yn wynebu teithiau o 4—6 awr i Lerpwl i gael triniaeth, dair gwaith yr wythnos.

Ni allai Gogledd Cymru gynnig gofal arbenigol i'w grŵp oedran. Dywedodd Catrin, "Roedd jyglo bod yn rhiant ac yn weithiwr proffesiynol cancer yn llethol. Yr oedd yn rhaid i mi roi'r gorau i waith i fod yno i Daisy—pob apwyntiad, pob ofn, pob milltir." Canodd Daisy y gloch ym mis Awst 2025, ond datgelodd ei thaith wirionedd poenus: ni ddylai cod post byth benderfynu ar fynediad i ofal. Mae hi'n annog, "Gwthiwch am y gofal gorau. Mae pawb yn ei haeddu."

Mae stori Daisy yn gri am ofal cyfannol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn – fel nad oes unrhyw un yn wynebu cancer ar ei ben ei hun nac ymhell o gartref. Rhaid i ni wneud beth bynnag mae'n ei gymryd, ble bynnag yr ydych chi, beth bynnag fo'ch angen, er mwyn gwneud iddo ddigwydd.

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru a rannodd eu straeon, eu profiadau a'u mewnwelediadau i lunio'r maniffesto hwn. Mae eich lleisiau — gonest, pwerus a phersonol — wrth wraidd popeth yr ydym ni'n galw amdano.

Rydym ni hefyd yn estyn ein diolch i weithwyr proffesiynol Macmillan ledled Cymru a gyfrannodd eu harbenigedd a'u safbwyntiau rheng flaen. Eich ymrwymiad i gefnogi pobl sy'n cael eu heffeithio gan ganser, yn aml mewn amgylcheddau dan bwysau ac amgylchiadau heriol, yw'r hyn sy'n sbarduno ein cenhadaeth i ysgogi chwyldro mewn gofal canser ar gyfer y dyfodol.

Eich maniffesto chi yw hwn — a byddwn yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i sicrhau bod eich lleisiau yn cael eu clywed.

Ym Macmillan, rydyn ni'n gwneud beth bynnag sydd ei angen i helpu pawb sy'n byw gyda chanser. Beth bynnag yw eich cwestiwn neu'ch angen, mawr neu fach, rydym ni yma i roi sicrwydd, gwybodaeth a chefnogaeth i'ch helpu chi nawr.

Am wybodaeth, cefnogaeth neu am sgwrs gyda rhywun, ffoniwch 0808 808 00 00 neu ewch i macmillan.org.uk/whateveryouneed